

# Gweithiwr Cymdeithasol Iechyd Meddwl

## Llawn amser 37 awr

## Newydd Gymhwyso £33,024-£35,745

## Lefel 3 £36,648 - £39,186

Lleoliad: Pwll Glas, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint / Aston House, Glannau Dyfrdwy

Rydym yn dymuno penodi gweithiwr cymdeithasol cymwys lefel 3, llawn cymhelliant â phrofiad mewn iechyd meddwl i gefnogi ein tîm yn Sir y Fflint fel Gweithiwr Cymdeithasol (gyda chymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy).

Yn Sir y Fflint, mae gennym enw da ym maes iechyd meddwl, ac mae hynny'n cynnwys ymgysylltiad da â defnyddwyr, gwaith partneriaeth trydydd sector, gwasanaethau darparwr gwych, defnydd creadigol o Daliadau Uniongyrchol, sefydlu mentrau cymdeithasol a hyrwyddo arfer arloesol.

Rôl y Gweithiwr Cymdeithasol yw gweithio mewn partneriaeth gyda phobl yn defnyddio'r gwasanaeth ac eraill i wella eu lles meddyliol a chyflawni eu canlyniadau a gytunwyd arnynt.

Byddwch yn gweithio gyda thîm sefydlog o gydweithwyr cefnogol a phrofiadol o amrywiaeth o broffesiynau, ynghyd â rheolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r timau'n gweithio ar hyn o bryd yn adeiladau'r gwasanaeth Iechyd ac rydym yn cydweithio i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

Wedi cymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol â phrofiad mewn iechyd meddwl

Gall ddangos ymrwymiad i egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Gall ddangos arferion arloesol a syniadau creadigol am hyrwyddo lles meddyliol

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn cynnwys cysylltiad â phlant ac oedolion diamddiffyn byddwch yn destun gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ar draws y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:

Rhian Evans, Rheolwr Tîm, Adnoddau Iechyd Meddwl rhian.evans@flintshire.gov.uk

Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Anabledd ac Iechyd Meddwl jo.taylor@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council